# CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 09fed Rhagfyr 2013**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 09th December 2013**

**Yn Bresennol/Present**: Cyng/Cllrs Tom Cowcher Mrs Philippa Davies Keith Evans Terry Griffiths Andrew Howell Mr Aled Jones Mrs Carolyn Reed-Rees

1 **Cyflwyniad / Presentation** -

Roedd Lesley Parker, The Solutions Factory Ltd, yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn trafod y datblygiadau o ran Gwefan y Cyngor. Cyflwynwyd dogfen i'r aelodau er mwyn iddynt roi adborth amdani. Penderfynwyd bod angen newid y lliwiau er mwyn cael mwy o gyferbyniad, ychwanegu rhagor o enwau pentrefi a dangos ffiniau'r wardiau hefyd. Yn ogystal, penderfynwyd penodi grŵp bach, a fyddai'n cynnwys y Cadeirydd Tom Cowcher, Cyng Keith Evans a'r clerc Nia Davies, er mwyn cysylltu gyda Lesley cyn i'r wefan gael ei chwblhau.

Lesley Parker, The Solutions Factory Ltd was present at the meeting to discuss developments with regards to the Councils Website. A document was presented to the members in order for them to give feedback. It was decided that the colour scheme needed changing to have more of a contrast, to add more village names and also show the ward boundaries. It was also decided to appoint a small group consisting of Chairman Tom Cowcher, Cllr Keith Evans and clerk Nia Davies to liaise with Lesley before the website is completed.

2 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau gan/Apologies was received from Cyng/Cllrs Rhiannon Ainsworth Wyn Evans Eileen Curry and County Councillor Peter Davies.

3 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest:** Tom Cowcher and Keith Evans – Llandysul Pont tyweli Ymlaen. Terry Giffiths – British Leigion Llandysul Branch.

4 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd 2013 yn gywir ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd / Minutes of monthly meeting held on 11 November 2013 were accepted as correct and signed by the Chair.

5 **Gwellhad Buan/Get Well**: Penderfynwyd anfon dymuniadau gorau y Cyngor Cymuned at Gynghorydd Wyn Evans, gan ddymuno gwellhad buan iddo / It was decided to send the Community Councils best wishes to Councillor Wyn Evans to wish him a speedy recovery.

6 **Materion yn Codi:-** Yn bresennol – Hoffai Cyng Keith Evans nodi ei fod yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol. Traffig ym Mhren-gwyn - Bydd y clerc yn holi'r heddlu lleol am y sefyllfa o ran parcio ar y sgwâr.

7 **Rhoddion:-**
*(i)* Llandysul Pont Tyweli Ymlaen – Cafwyd cais am rodd tuag at y Penwythnos Garddio – Cynigiodd Carolyn Reed Rees y dylid rhoi £1000 ac eiliwyd y cynnig hwn gan Andrew Howell.
Urdd Gobaith Cymru– *Cenedlaethol* – Rhodd tuag at Eisteddfod 2014 – Penderfynwyd peidio rhoi
Urdd Gobaith Cymru – Ardal Llandysul – Rhodd tuag at redeg Eisteddfod yr Urdd Ardal Llandysul - Cynigiodd Cyng Keith Evans y dylid rhoi £200 ac eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Tom Cowcher
*(ii)* Cafwyd **cydnabyddiaeth derbyn rhodd** gan:- Sioe Llandysul - £800

8 **Gohebiaeth**
1) Cafwyd y canlynol gan **Geredigion:-** Cyfarfodydd Ymgynghori Cyhoeddus ym mis Tachwedd / Rhagfyr 2013 Penderfynwyd ysgrifennu at Miss Lowri Evans i'w hysbysu na roddwyd digon o rybudd i'r cyhoedd am y cyfarfod, ac i ofyn a ydynt yn bwriadu cyfarfod gyda'r holl Gynghorau Cymuned yn y dyfodol agos.
Cau Ffordd Dros Dro – B4459 Dolwallter, Llanfihangel-ar-arth rhwng 13 Ionawr 2014 a 07 Chwefror 2014.
Dogfen Ymgynghori ar Ysgol 3-19 Llandysul - Penderfynwyd gofyn i'r clerc sicrhau copi electronig o'r ddogfen a'i hanfon ymlaen at yr aelodau.

2) **Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin** – Hysbysiad o gyfarfod Cyn gwrandawiad a gynhelir ym Mharc-y-Scarlets Llanelli ar 11/12/13
3) **Llywodraeth Cymru** – Hysbysiad ynghylch y Cyfyngiad ar wariant dan adran 137 ar gyfer 2014-15
Poster gan Mark Williams AS – caiff hwn ei arddangos.
4) **SLCC** – Aelodaeth ar gyfer 2014 – Penderfynwyd adnewyddu ein haelodaeth.
*Intoduction to Local Coucil Administration – The Essential Knowledge for all new clerks.* Penderfynwyd y dylai'r clerc sicrhau rhagor o wybodaeth.
5) **Bopath Cymru** – Cafwyd llyfr gwybodaeth.
6) **Chwarae i Gymru** – Cafwyd y cylchlythyr misol.
7) **Heddlu Dyfed Powys** – Cais am help i osod praesept Treth Gyngor 2014/15. Penderfynwyd anfon y ddolen i Gyng Tom Cowcher er mwyn iddo ymateb.
Asesiad Strategol Trosedd ac Anrhefn Ceredigion – Penderfynwyd y dylai'r clerc sganio'r ddogfen a'i hanfon ymlaen at yr holl aelodau er mwyn iddynt lenwi'r holiadur. Anfonir yr holl ymatebion at Gyng Tom Cowcher.
8) **Y Lleng Brydeinig yn Ardal Llandysul** – Hysbyswyd y Cyngor gan Gyng Terry Griffiths mai'r enw yw'r Lleng Brydeinig Frenhinol ac nad oes Cangen yn Llandysul mwyach. Yn ogystal, ychwanegodd ei bod yn dod dan gangen Castellnewydd Emlyn nawr. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth am y mater hwn.
Cafwyd llythyr yn diolch i'r Cyngor Cymuned am ei gefnogaeth ar Sul y Cofio ac yn gofyn am ei rodd arferol ar gyfer Apêl y Pabi. Penderfynwyd rhoi £50.00.

9) **Anfonebau:-**
(i) Compass Office Supplies - £455.16. Inc a phapur ar gyfer y clerc
*(ii)* Llinos Jones – Cafwyd anfoneb am y swm o £119.45 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Tachwedd a derbyniwyd y dylid rhoi siec i'w thalu.
*(iii)* Abacus Cleaning Services – Cafwyd anfoneb am y swm o £243.25 am lanhau'r llochesau bws. Nodwyd ar yr anfoneb bod un panel ar y lloches bws yn Horeb yn cynnwys darn mawr o graffiti. Gan bod Cyngor Sir Ceredigion wedi adleoli'r lloches bws hwn pan newidiwyd y ffordd, penderfynwyd y byddai'r clerc yn gofyn i'r cyngor a fyddent yn fodlon disodli'r panel.
(iv) M Williams – Cafwyd anfoneb am y swm o £328 am gynnal a chadw Plas y Dderwen a'r Llethr Glaswellt gyferbyn â Neuadd Tysul.
(v) N Davies - £33 costau postio
(vi) N Davies - £192.50 ad-dalu costau ffôn a band eang.

11 **Ciosgau Coch** – Dim diweddariadau pellach.

12 **Balchder Pentrefi** – Adroddwyd bod yr holl anfonebau wedi cael eu hanfon ymlaen at Jo Shaw. Yn ogystal, penderfynwyd y byddai Cyng Tom Cowcher yn cysylltu â hi gan nodi sawl plac y byddai eu hangen.

13 **Rheoli Cŵn** Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Chwaraeon, adroddodd Cyng Aled Jones bod y pwyllgor wedi penderfynu archebu rhagor o arwyddion er mwyn ceisio cadw cŵn oddi ar y caeau chwarae. Yn ogystal, penderfynwyd y byddai'r clerc yn ysgrifennu at y Warden Cŵn er mwyn gweld a fyddai modd iddynt fod yn bresennol yn Llandysul yn fwy rheolaidd.

11 **Llwybrau Troed** Adroddodd Cyng Tom Cowcher bod angen i'r Cyngor Cymuned gynnal a chadw'r llwybrau troed, o ran y camfeydd a'r gatiau. Byddai'r gwaith yn cael ei wneud gan Haydn Lewis a gofynnwyd i bawb adrodd unrhyw broblemau i'r Cadeirydd.

12 **Toiledau Sgwâr Bradford** Cyflwynodd y clerc ffigurau i'r Cyngor er mwyn yswirio'r toiledau. Penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn mabwysiadu'r cyfrifoldeb dros redeg y toiledau.

13 **Pwll Nofio Llandysul** Tynnwyd sylw'r Cyngor at y ffaith y byddai gwerth £44,000 yn cael ei dynnu oddi ar y cyllid ar gyfer pwll nofio Llandysul yng nghyllideb newydd y Cyngor. Yn ogystal, adroddwyd y byddai'r pwll yn cau ddiwedd fis Rhagfyr. Penderfynwyd y dylai'r clerc holi Prif Weithredwr y Cyngor Sir ac Arweinydd y Cyngor i gyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned er mwyn gweld a fyddai modd gwneud unrhyw beth i achub y cyfleuster hwn a hefyd, er mwyn tanseilio'r broblem gyda'r parc yn dilyn y penderfyniad i dynnu £20,000 o'u cyllid nhw. Byddai Cyng Andrew Howell yn mynychu'r cyfarfod cyhoeddus ar 10 Rhagfyr ynghylch y pwll nofio ar ran y Cyngor.

**17 Cynllunio**: Cafwyd hysbysiad am Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 10.4.2013. (Fel Cynghorwyr Sir, roedd Cynghorwyr Peter Davies a Peter Evans yn dymuno cofnodi nad oeddent wedi mynegi barn mewn perthynas ag unrhyw rai o'r Ceisiadau Cynllunio, a'u bod wedi gadael y cyfarfod ar yr adeg hon).
Archwiliwyd y cynlluniau canlynol ac ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-
Brynglas, Pantolwen – Un tŷ er mwyn disodli cymeradwyaeth gynllunio ar gyfer chwe thŷ
Tir y tu ôl i 65 Parc yr Ynn – Amser estynedig er mwyn cychwyn ar y datblygiad
Pant yr Awel, Rhydowen – Newid Adeilad amaethyddol i adeilad defnydd diwydiannol ysgafn

Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol dan awdurdod dirprwyedig, ac nid oedd unrhyw wrthwynebiadau iddynt:-
(Ni chysylltwyd â Chynghorydd Tom Cowcher)
Penrhiw, Capel Dewi – Codi adeilad amaethyddol er mwyn cadw stoc
Hen Ysgol Gynradd Tre-groes – Addasiadau ac estyniad, i'w defnyddio fel Neuadd Gymunedol ar gyfer y Pentref a'r Cylch
**Caniatâd Cynllunio**
Shilow, Tre-groes, Llandysul – Rhesaid o Baneli Solar Ffotofoltäig
Neuadd Tysul – Cael gwared ar fur canllaw y tu blaen i'r neuadd
**Ceisiadau Cynllunio a Dynnwyd yn Ôl**
Ficerdy Tanyfron Llandysul – Adeiladu 6 annedd
Pantdefaid, Pren-gwyn – codi 2 dyrbin gwynt
**Ceisiadau Cynllunio a Wrthodwyd**
Frondeifi, Llanfihangel-ar-arth – Cael gwared ar Amod amaethyddol 6

6 **Matters Arising:-** Present –Cllr Keith Evans would like it to be noted that he was present at the last meeting. Traffic in Prengwyn - The clerk is to check with the local police with regards to the parking on the square.

7 **Donations:-**
*(i)* Llandysul Pont Tyweli Ymlaen – Appeal a donation towards the Gardening Weekend –It was proposed to donate £1000 by Carolyn Reed Rees and seconded by Andrew Howell.
Urdd Gobaith Cymru – *National* – A donation towards the 2014 Eisteddfod – It was decided not to donate
Urdd Gobaith Cymru – Llandysul Area – A donation towards running the Llandysul Area Urdd Eisteddfod – It was proposed by Cllr Keith Evans to donate £200 and seconded by Cllr Tom Cowcher
*(ii)* **Acknowledgement of receipt of donations** were received from:- Llandysul Show- £800

8 **Correspondence**
1) The following were received from **Ceredigion:-** Public Consultation Meetings November / December 2013 It was decided to write to Miss Lowri Evans to inform her that not enough notice was given to inform the public of the meeting and ask if it's their intention to meet with all Community Councils in the coming future.
Temporary Road Closure – B4459 Dolwallter, Llanfihangel ar Arth from 13 January 2014 – 07 February 2014.
Consultation Document 3-19 Llandysul School - It was resolved to ask the clerk to obtain a copy of the document electronically and forward it to members.

2) **Carmarthenshire Local Development Plan**– Notice of a Pre-hearing meeting at Parc-y-Scarlets Llanelli on 11/12/13
3) **Welsh Government** – Notice of section 137 expenditure Limit for 2014-15
A poster from Mark Williams MP – this is to be displayed.
4) **SLCC** – Membership 2014 – It was resolved to renew our membership.
Intoduction to Local Coucil Administration – The Essential Knowledge for all new clerks It was resolved that the clerk obtain more informaiton .
5) **Bopath Cymru** – Information book was received.
6) **Play for Wales** – The monthly magazine was received.
7) **Dyfed Powys Police** – A request with help with setting the 2014/15 Council Tax precept. It was resolved to send Cllr Tom Cowcher the link to reply.
Ceredigion Crime & Disorder Strategic Assessment – It was resolved that the clerk scan the docu ment and forward to all members to fill in the questionnaire. Cllr Tom Cowcher to receive all reply's.
8) **British Legion Llandysul Area** – Cllr Terry Griffiths informed the Council that it should read Royal British Legion and that there was no longer a Llandysul Branch. He also added that Llandysul now came under Newcastle Emlyn branch. He left the meeting during this topic.
A letter was received thanking the Community Council for their support on Remembrance Sunday and asking for their usual donation to the Poppy Appeal. It was resolved to donate £50.00.

9) **Invoices:-**
(i) Compass Office Supplies - £455.16. Ink and paper for the clerk
*(ii)* Llinos Jones – Invoice for November translation was received in the sum of £119.45 and cheque was passed for payment.
*(iii)* Abacus Cleaning Services – Invoice was received for cleaning bus shelters for £243.25. It was noted on the invoice that the bus shelter in Horeb had a large area of graffiti one panel. As this bus shelter had been relocated by Ceredigion County Council when the road was altered it was resolved that the clerk ask the council if they would replace the panel.
(iv) M Williams – An invoice was received to the sum of £328 for maintenance of Plas y Dderwen and Grass Bank adjacent to Tysul Hall.
(v) N Davies - £33 postage costs
(vi) N Davies - £192.50 broadband and phone costs reimbursement.

11 **Red Kiosks** – No further updates.

12 **Balchder Pentrefi** – It was reported that all invoices had been forwarded to Jo Shaw. It was also decided that Cllr Tom Cowcher contact her with regards to how many plaques were needed.

13 **Control of Dogs** Cllr Aled Jones reported that after a meeting of the Sports Committee it was decided to order more sinage to try and keep the dogs off the playing fields. It was also decided that the clerk write to the Dog Warden to see if they could be present in Llandysul more regularly.

11 **Footpaths** Cllr Tom Cowcher reported that as a Community Council the need to maintain the footpaths with regards to the styles and gates. Work would be done by Haydn Lewis and it was requested that any problems should be reported to the Chairman.

12 **Bradford Square Toilets** The clerk presented figures for insuring the toilets to the Council. It was decided that the Council would not be taking over the running of the toilets.
13 **Llandysul Swimming Pool** It was brought to the Coucils attention that as £44,000 funding would be withdrawn from the swimming pool at Llandysul in the new Councils budget. It was also reported that the swimming pool would be closing its doors at the end of December. It was decided the the clerk ask the Chief Executive of the County Council and the Council Leader to meet with the Community Council to see if anything could be done to save the facility and also to underline the problem with the park after £20,000 had been withdrawn from them. Cllr Andrew Howell would be attending the public meeting on 10 December regarding the swimming pool on behalf of the Council.

14 **Planning**: Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 11.12.2013 was received.
The following plans were inspected, there were no objections:-
Land opposite Penparc, Horeb, Llandysul – Erection of four new dwellings to comprise two affordable units and two speculative units

**Planning Permission**
Container Shed opposite entrance to Family Centre, The Beeches Llandysul

**Ddim ar gyfer y cyhoedd.**

**18** **<u>Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques</u>:**
Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/
Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | £ c/£ p | |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translation | 224.20 | 000166 |
| Un Llais Cymru | 2013/14 Aelodaeth /Membership | 348.00 | 000167 |
| The Greenhouse | Gofalu/Maintenance 2012/13 | 990.00 | 000168 |
| Mrs Mary Davies | Cyflog Clerc/Clerks Wages | 477.85 | 000169 |
| HMRC | Cyflog Clerc/Clerk Wages | 8.40 | 000170 |
| Mrs Mary Davies | Postio/Postages | 14.00 | 000171 |
| | Cyfanswm/Total | 2062.45 | |

08.04.13